OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2000 Rhif 1738 (Cy.121)

# BWYD, CYMRU

## Rheoliadau Cynhyrchion Llaeth (Hylendid) (Taliadau) (Diwygio) (Cymru) 2000

| | | |
|---|---|---|
| *Wedi'u gwneud* | - - | *19 Mai 2000* |
| *Yn dod i rym* | - - | *20 Mai 2000* |

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adrannau 45 a 48(1)(b) o Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990(**1**), wedi rhoi sylw yn unol ag adran 48(4A) o'r Ddeddf honno i gyngor perthnasol a roddwyd gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd, ac wedi ymgynghori yn unol ag adran 48(4) a (4B) o'r Ddeddf honno, yn gwneud y Rheoliadau canlynol:

**Teitl, cychwyn a chymhwyso**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Cynhyrchion Llaeth (Hylendid) (Taliadau) (Diwygio) (Cymru) 2000 a deuant i rym ar 20 Mai 2000.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys i Gymru.

**Diwygio Rheoliadau Cynhyrchion Llaeth (Hylendid) (Taliadau) 1995**

**2.** Diwygir Rheoliadau Cynhyrchion Llaeth (Hylendid) (Taliadau) 1995(**2**) (i'r graddau y maent yn gymwys i Gymru) yn unol â rheoliadau 3 i 5 isod.

**3.** Yn rheoliad 2 (dehongli) –

(a) caiff y diffiniad o "dairy farm visit" a'r diffiniadau cysylltiedig o "sampling dairy farm visit" a "general dairy farm visit" eu hepgor;

(b) caiff y diffiniad canlynol ei fewnosod ar ôl y diffiniad o "registered production holding" —

""sampling dairy farm visit" means a visit to a registered production holding by an inspector for the purpose of taking samples of milk for analysis and examination to ascertain whether paragraph 2(b) of Part I of Schedule 4 (as read with regulation 9(1)(d) and (2)(a)) to the principal Regulations is being complied with;".

**4.** Yn rheoliad 3 (atebolrwydd i dalu taliadau) -

(**1**) 1990 p.16. Diwygiwyd adran 48 gan baragraff 21 o Atodlen 5 i Ddeddf Safonau Bwyd 1999 (p.28). Trosglwyddwyd swyddogaethau a frieniwyd yng Ngweinidogion y Goron mewn perthynas â Chymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672).

(**2**) O.S. 1995/1122, y ceir diwygiadau iddo nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

(a) Yn lle paragraff (1) rhoddir y paragraff canlynol.

"—

(1) For the purposes of carrying out any sampling, analysis and examination of raw cow's milk which is drinking milk in pursuance of regulation 16(3) of the principal Regulations and subject to paragraph (2) below, there shall be due from a specified producer to the Agency in respect of any sampling dairy farm visit a charge of £63.";

(b) ym mharagraff (2) caiff is-baragraff (a) ei hepgor.

**5.** Caiff yr Atodlen ei hepgor.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**3**).

*Dafydd Elis Thomas*
Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

19 Mai 2000

(**3**) 1998 p.38.

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau.)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Cynhyrchion Llaeth (Hylendid) (Taliadau) 1995, fel y'u diwygiwyd, ("Rheoliadau 1995") mewn perthynas â Chymru.

Mae taliadau i'w talu gan gynhyrchwyr llaeth ar ddaliadau cofrestredig o dan Reoliadau 1995 mewn perthynas ag ymweliadau â ffermydd llaeth a gynhelir er mwyn darganfod a yw darpariaethau Rheoliadau Cynhyrchion Llaeth (Hylendid) (Taliadau) 1995, (O.S. 1995/1086, fel y'i diwygiwyd gan O.S. 1995/1763, 1996/1499, 1996/1699, 1997/1729, 1998/2424 a 2000/656) yn cael eu bodloni. Mae'r Rheoliadau hyn yn dileu'r atebolrwydd i dalu taliadau o'r fath, ac eithrio mewn perthynas ag ymweliadau at ddiben cymryd samplau o laeth yfed sydd yn laeth amrwd buchod i'w ddadansoddi a'i archwilio er mwyn gweld a yw'n cydymffurfio â'r darpariaethau yn y Rheoliadau hynny ynghylch meini prawf microbiolegol. Mae'r tâl yn yr achos hwnnw yn aros yn ddigyfnewid, sef £63 (rheoliadau 2 i 5).

Mae arfarniad rheoleiddiol yn unol ag adran 65 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 wedi'i baratoi. Gellir cael copïau oddi wrth yr Asiantaeth Safonau Bwyd - Cymru, Llawr Cyntaf, Southgate House, Wood Street, Caerdydd, CF10 1EN .